LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU
THE NATIONAL LIBRARY OF WALES

Cofnodion Sesiwn Agored

Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

31 Mawrth 2023

Presennol:

Aelodau:

Andrew Evans (Is-lywydd)	Anwen Jones
Lee Yale-Helms (Trysorydd)	Lydia Rumsey
Janet Wademan	David Hay
Mike Cavanagh	Elaine Treharne
Quentin Howard	Hannah Lindsay
Carl Williams	Susan Davies
Gronw Percy (Trysorydd-dynodedig)	

Tîm Gweithredol:

Pedr ap Llwyd	Prif Weithredwr a Llyfrgellydd
Owain Roberts	Cyfarwyddwr Casgliadau a Gwasanaethau Digidol

Hefyd yn Bresennol:

Annwen Isaac, Rheolwr AD
Emyr Phillips, Pennaeth Cyllid

Cofnodion:

Carol Edwards	Rheolwr Llywodraethu a Chlerc Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

Sylwedyddion:

Manon Maragakis	Llywodraeth Cymru

CYFLWYNIAD 1 : Owen Llewelyn, Pennaeth Dysgu ac Ymgysylltu

Cyflwynodd Owen Llewelyn wybodaeth gefndir ar ddatblygiad Adran Addysg y Llyfrgell a ffurfiwyd yn 2003 fel rhan o'r Gwasanaeth Ymwelwyr. Mae'r adran yn gweithio gydag ysgolion, colegau, a dysgwyr gydol oes, ac, yn dilyn argymhelliad a wnaed yn yr Adolygiad Teilwredig, mae wedi gweld buddsoddi pellach sy'n galluogi'r adran i dyfu a phenodi staff ychwanegol.

Amlinellodd Owen Strategaeth Addysg 2023 – 2026, sy'n anelu at gynyddu'r gwaith addysg, cynnig profiadau cyffrous i ddefnyddwyr, a mynediad ehangach i gasgliadau'r Llyfrgell, yn

adeilad y Llyfrgell, yn rhithiol a ledled Cymru. Mae'r adran yn gobeithio mabwysiadu ymagwedd strategol newydd drwy;

- Wella lles plant, pobl ifanc ac oedolion trwy addysg a dysgu blaengar
- Bod yn ffynhonnell gyfarwydd, arbenigol, gweladwy, ddeniadol a deinamig o wybodaeth addas, hawdd ei defnyddio a dibynadwy ar gyfer cefnogi dysgu yng Nghymru
- Hyrwyddo mynediad i gasgliadau'r Llyfrgell er mwyn cefnogi dysgu, drwy gynnig profiadau ac adnoddau a fydd yn ysbrydoli plant, pobl ifanc ac oedolion er mwyn gwella sgiliau, cynyddu gwybodaeth a hybu uchelgais

Roedd ehangder y gwaith a wneir gan yr Adran Addysg wedi gwneud argraff ar aelodau'r Bwrdd ond awgrymwyd y gellid cyfeirio'n fwy at gasgliadau'r Llyfrgell yn y ddogfen, gan mai dyma'r pwynt gwerthu unigryw, ynghyd â mwy o gyfeiriadau at ddysgu gydol oes .

Diolchodd y Cadeirydd i Owen am gyflwyniad cynhwysfawr a diddorol.

CYFLWYNIAD 2: John Cockerton, Willis Towers Watson

Dywedodd Lee Yale-Helms wrth yr Ymddiriedolwyr, er mai hwn oedd ei gyfarfod olaf fel Ymddiriedolwr, y byddai, ar gais y Llywydd, yn parhau yn ei rôl fel Cadeirydd Bwrdd y Cynllun Pensiwn, ac i'r perwyl hwnnw, roedd wedi bod mewn trafodaethau gyda Linklaters er mwyn diweddaru'r dogfennau ymgynghori ar fater y posibilrwydd o gau'r cynllun pensiwn presennol a ddrafftiwyd ganddynt tua 18 mis yn ôl.

Dylai'r prisiad actiwaraidd sydd ar ddod o ran y gyfradd gyfrannu, mewn perthynas â'r diffyg ariannol a gwasanaeth y dyfodol, ddod i law yn fuan, ac yna gallai'r Llyfrgell fynd ymlaen i ddadansoddi a chymharu'r opsiynau sydd ar gael, a chyflwyno cynigion i'r staff a'r undebau.

Mewn ymateb i gwestiynau am yr amserlen ar gyfer bwrw ymlaen, mae'r Ddeddf Pensiwn yn datgan bod angen proses ymgynghori 60 diwrnod, ond doeth fyddai ychwanegu mis ychwanegol fel cyfnod wrth gefn; bydd gweithredu'n cymryd cyfnod pellach, nad yw'n hysbys hyd yma. Dywedodd Lee Yale-Helms y byddai'n drafftio amserlen ar gyfer y Bwrdd Pensiwn a Bwrdd yr Ymddiriedolwyr cyn gynted â phosibl yn dilyn y cyfarfod.

Diolchodd y Cadeirydd i John Cockerton a Lee Yale-Helms am eu cyfraniad.

1.1 Gair o Groeso gan y Cadeirydd, Sylwadau Agoriadol ac Ymddiheuriadau

Croesawodd yr Is-lywydd, a oedd yn cadeirio'r cyfarfod yn absenoldeb y Llywydd, bawb i'r cyfarfod. Estynnodd longyfarchiadau'r Bwrdd i'r Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd ar ei benodiad i Bwyllgor Cymru Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol, yn weithredol o 1 Ebrill 2023.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ashok Ahir, Gwenllian Lansdown Davies, Rhian Gibson a David Michael.

1.2 Datgan Buddiannau sy'n berthnasol i'r agenda

Datganodd Aelodau'r Tîm Gweithredol, Clerc y Bwrdd, Pennaeth yr Adran Gyllid a'r Rheolwr Adnoddau Dynol fuddiant yn y drafodaeth ar y cynllun pensiwn fel aelodau gweithredol o'r cynllun hwnnw.

1.3 Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2023 a'r cyfarfod eithriadol ar 23 Chwefror 2023, a thrafodaeth ar faterion yn codi

Derbyniwyd cofnodion y ddau gyfarfod fel cofnod cywir o'r materion a drafodwyd.

Ymweliad Ysgrifennydd Gwladol Cymru – bydd Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ymweld â'r Llyfrgell ym mis Mai neu fis Mehefin, pan fydd yn cynnal trafodaeth bord gron ar y Gymraeg, ac mae'r Gweinidog wedi gofyn yn benodol am gyfarfod yn y Gymraeg gyda'r Tîm Gweithredol.

Adolygiad CIPFA o reolaeth ariannol - mae hwn yn dod yn ei flaen yn dda, a disgwylir y bydd pob cyfweliad wedi ei gwblhau ar 31 Mawrth. Dylai'r adroddiad terfynol gael ei gyflwyno ymhen ychydig wythnosau, a bydd hwn yn cynnig llwyfan ar gyfer symud ymlaen drwy nodi meysydd i'w gwella.

Cynllun seiberddiogelwch – bydd y cynllun hwn yn cael ei rannu gyda'r Tîm Gweithredol ar ôl y Pasg, ac yna'n cael ei rannu gyda'r Bwrdd.

Gweithio hybrid – mae tua 40 o geisiadau am weithio hybrid wedi'u cyflwyno ar sail 2 ddiwrnod o weithio yn yr adeilad a thri diwrnod o weithio gartref.

Dogfen Fframwaith – Nododd Manon Maragakis, nawr bod y gofynion ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol wedi'u hegluro, y bydd swyddogion Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda'r Llyfrgell er mwyn diweddaru'r ddogfen.

Cynghrair strategol Prifysgol Cymru'r Drindod Dewi Sant - y gobaith yw y bydd y cytundeb ffurfiol ar gyfer y gynghrair hon yn cael ei lansio ym mis Mai neu fis Mehefin yn Abertawe.

Adran 2 Adroddiad y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd

Adroddodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd ar ddau fater ychwanegol oedd wedi digwydd.

Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Cynhaliodd Archwilio Cymru archwiliad ym mis Medi 2022 ar sut roedd y Llyfrgell wedi cymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy wrth bennu

ei hamcanion llesiant, ac i nodi cyfleoedd i ymgorffori'r egwyddor datblygu gynaliadwy ymhellach wrth osod amcanion llesiant yn y dyfodol.

Roedd yr adroddiad, gaiff ei rannu gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr, yn nodi fel a ganlyn;

"Dangosodd y Llyfrgell ymrwymiad clir i gymhwyso'r egwyddor datblygu gynaliadwy a rhoi ei hamcanion llesiant wrth wraidd ei chynllunio strategol, ond roedd lle i wella ei hystyriaeth o dueddiadau'r dyfodol, amcanion sefydliadau eraill, a chynnwys amrywiaeth lawn y boblogaeth".

Deiseb Heddwch – Mae Rhian Gibson, Cyfarwyddwr Cyfathrebu, Ymgysylltu a Phartneriaethau wedi mynd i Washington fel un o'r criw a fydd yn dod â'r ddeiseb heddwch yn ôl i'r Llyfrgell. Disgwylir y bydd y ddeiseb a'r gist sy'n ei chynnwys yn cyrraedd y Llyfrgell ar 4 Ebrill. Mynegodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd ei ddiolch i Lywodraeth Cymru am eu cefnogaeth drwy gydol yr ymgyrch i ddychwelyd y ddeiseb i Gymru.

Adran 3 Materion Strategol

3.1 Strategaeth Addysg

Yn dilyn cyflwyniad Owen, roedd yr Ymddiriedolwyr yn hapus i gymeradwyo'r Strategaeth Addysg ar yr amod bod mesurau llwyddiant / Dangosyddion Perfformiad Allweddol yn cael eu cynnwys. Cytunodd y Bwrdd y dylid cyflwyno DPAau arfaethedig ar gyfer y Strategaeth Addysg i'r Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd i'w trafod.

3.2 Cynllun Ariannol Tymor Canolig 2023/24 – 2025/26

Roedd y CATC yn cynnig crynodeb o'r rhagolygon ariannol ar gyfer y tair blynedd 2023-24 i 2025-26, yn seiliedig ar y tybiaethau allweddol canlynol;

- ffigurau dangosol ar gyfer Grant Cymorth refeniw'r Llyfrgell am y ddwy flynedd nesaf
- 5% o ddyfarniad cyflog cyfunol ar gyfer 2023-24 ac yna 3% arall o ddyfarniad cyflog cyfunol ar gyfer 2024-25 a 2025-26 fel ei gilydd.
- cyfradd cyfraniad i'r gronfa bensiwn o 34.2% sefydlog am y tair blynedd nesaf
- rhagdybiwyd y bydd chwyddiant yn 4% yn 2024-25 a 2.5% yn 2025-26

Roedd y Trysorydd yn hapus i dderbyn y cynllun hwn, oedd yn dangos gwelliant sylweddol o ran y sefyllfa ariannol a gyflwynwyd yn flaenorol. Bydd angen i'r Llyfrgell weithio o hyd ar gyllidebu ar sail sero a chyflawni arbedion cost, a gall hyn fod yn eitem i'w thrafod yng nghyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin neu'r cyfarfod deuddydd ym mis Gorffennaf.

Diolchwyd i Emyr Phillips ac Emyr Evans am ddrafftio'r CATC.

3.3 Gwariant Cyfalaf

Croesawodd y Cadeirydd Mark Stevens i'r cyfarfod i gyflwyno ei adroddiad ar wariant cyfalaf ac ymrwymiad i waith adeiladu ar gyfer 2023/24.

Ers drafftio ei adroddiad, roedd Mark wedi cael gwybod am Grant Cymorth cyfalaf ychwanegol nad yw wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn, ond caiff adroddiad diwygiedig, wedi'i ddiweddaru, ei ddosbarthu i'r Ymddiriedolion yn dilyn y cyfarfod.

Pwysleisiodd Mark nad oedd fawr o ddiben bwrw ymlaen â'r prosiect datgarboneiddio hyd nes bod y gwaith atgyweirio i'r toeau a'r ffenestri yn Stac Lyfrau 2 wedi'i wneud. Ategwyd hyn gan Mike Cavanagh, Cadeirydd y Panel Adeiladau. Oni bai bod y gwaith atgyweirio'n cael ei wneud, gallai'r dŵr sy'n dod i mewn yn barhaus olygu y bydd angen ailosod y to yn gyfan gwbl.

Pwysleisiwyd ymhellach y bydd y prosiect datgarboneiddio'n gostus, ond nododd yr Ymddiriedolion eu parodrwydd i dderbyn y ffaith hon. Gwaith atgyweirio hanfodol fydd yn cael y flaenoriaeth ar gyfer gwariant rhwng nawr a 2030, a gwneir hyn ochr yn ochr ag elfennau o'r prosiect datgarboneiddio, er mwyn sicrhau diogelwch parhaus y casgliadau cenedlaethol. Mae pensaer eisoes wedi'i gomisiynu i gynnal arolwg cyflwr o Stac Lyfrau 1 a 2, a dylai hyn gael ei gwblhau yn barod ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin.

3.4 Cynllun Pensiwn – ymgynghoriad

Nododd y Trysorydd fod Ymddiriedolwyr y Cynllun Pensiwn yn agos at gytuno ar gyfradd cyfraniadau am y tair blynedd nesaf, yn dilyn ymarfer prisio tair blynedd a gynhaliwyd gan yr actiwarïaid.

Ar hyn o bryd mae i'r Cynllun ddiffyg ariannol o tua £6m, a fyddai, ar gyfradd gyfrannu o 34.2%, yn cymryd 8/9 mlynedd i'w ad-dalu. Yn seiliedig ar ostwng y gyfradd gyfraniadau i 30.1% byddai hyn yn gweld y diffyg ariannol yn cael ei dalu mewn 15 mlynedd. Bydd y Bwrdd Pensiynau yn cyfarfod yn fuan, a gofynnodd y Trysorydd, pe bai'r ymddiriedolwyr pensiwn yn fodlon gostwng y gyfradd cyfraniadau i 30.1%, a fyddai Bwrdd y Llyfrgell yn hapus i dderbyn hyn, gan ychwanegu bod yr ymagwedd risg a gymerir gan y Llyfrgell yn unol â chyrff eraill. Roedd y Bwrdd yn hapus i dderbyn y cynnig hwn.

3.5 Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd

Nododd y Cadeirydd, gan fod yr adolygiad yn cyfeirio at rôl y Llywydd ac arweinyddiaeth y Bwrdd, fel mater o gwrteisi, y byddai'r mater hwn yn cael ei ohirio hyd nes y byddai'n bresennol. Cytunwyd y gallai hyn fod yn rhan o drafodaeth wedi'i hwyluso yng nghyfarfod deuddydd y Bwrdd ym mis Gorffennaf.

Adran 4 Materion Corfforaethol

4.1 Adroddiadau Ariannol

4.1.1 Cyfrifon Rheoli Chwefror 2023

Cyflwynodd Emyr Phillips y cyfrifon rheoli ynghyd â ffigurau terfynol cyllideb 2022-23 sy'n dangos diffyg o £19k (cyn diffyg ariannol prosiectau) ar gyfer y cyfnod o un mis ar ddeg hyd at 28 Chwefror 2023. Mae hyn yn cynrychioli amrywiad cyllidebol cadarnhaol o £232k yn erbyn y gyllideb linell union.

Fel yr adroddwyd yn flaenorol, bydd diffyg refeniw am y flwyddyn. Rhagwelir y bydd y diffyg cyllidebol cychwynnol o £1,334k yn awr tua £100k ar 31 Mawrth 2023, gwelliant o dros £1.2m.

Roedd y gwariant cyfalaf am y cyfnod yn £2,392k, gyda dros £1m o hwn wedi ei glustnodi o 2021/22. Mae'r Llyfrgell ar y trywydd iawn i gyflawni'r gwariant cyfalaf a gyllidwyd erbyn 31 Mawrth 2023.

Diolchodd y Cadeirydd i Lywodraeth Cymru am ddarparu cyllid Grant Cymorth ychwanegol, ac i'r Tîm Gweithredeol am adennill costau ar gyfer 2022/23.

4.2 Cydymffurfiaeth a Risg

4.2.1 Cofrestr Risg Corfforaethol

Nododd y Prif Weithredwr fod y fersiwn hon o'r gofrestr risg corfforaethol wedi'i chyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd ar 14 Mawrth, ond bod risgiau wedi'u hadolygu a'u diweddaru yn RiskMate ers hynny.

Mynegodd yr Ymddiriedolwyr awydd i dderbyn adroddiad dehongli/cryno o unrhyw newidiadau a wnaed i risgiau unigol, gan nad yw'r adroddiad fel y mae yn rhoi digon o fanylion.

Yn dilyn cyflwyniad Mark Stevens, gofynnwyd am i'r canlynol gael eu cynnwys ar y gofrestr risg corfforaethol; *Angen atgyweiriadau brys i'r adeilad er mwyn cyfyngu ar y risg barhaus i'r casgliadau.*

Nododd y Cadeirydd Archwilio Risg a Sicrwydd nad oedd y Pwyllgor yn gwbl hapus gyda chynnwys y gofrestr risg gyfredol na'r rheoli risg yn gyffredinol, ond roedd yn gwerthfawrogi bod yna amgylchiadau esgusodol dros hyn. Sicrhaodd y Prif Weithredwr y Cadeirydd a'r holl Ymddiriedolwyr bod rheoli risg yn cael ei fonitro'n barhaus gan y Tîm Gweithredol a Phenaethiaid Adran, a'r gobaith yw y caiff hyn ei atgyfnerthu gan yr archwiliad mewnol ar reoli risg sydd i'w gynnal yn ystod y flwyddyn.

Adran 5: Adroddiadau gan y Pwyllgorau

5.1 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Cyllid ac Adnoddau 14.02.23

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Lee Yale-Helms. Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr Ymddiriedolion.

5.2 Cofnodion Drafft y Pwyllgor Archwilio, Risg a Sicrwydd 07.03.23

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Janet Wademan.

Cadarnhawyd mai'r archwiliadau arfaethedig ar gyfer y flwyddyn i ddod byddai:

- Seiberddiogelwch
- Rheoli Risg
- Caffael
- archwiliad yn deillio o adolygiad CIPFA o reolaeth ariannol

Rhoddodd y Prif Weithredwr a'r Llyfrgellydd eglurder ar gwestiwn a ofynnwyd yn y cyfarfod yng nghyd-destun cynllunio olyniaeth, ar effaith bosibl yr anallu i benodi staff sy'n gallu siarad Cymraeg – y prif effaith fyddai cyfyngu ar y gwasanaethau dwyieithog y mae'r Llyfrgell yn eu darparu. Mae'r Llyfrgell, fodd bynnag, yn gwbl ymroddedig i ddarparu cyfleoedd i ddysgwyr.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr Ymddiriedolwyr.

5.3 Cofnodion Drafft y Panel Adeiladau 13.03.23

Cyflwynwyd y cofnodion gan y Cadeirydd, Mike Cavanagh.

Cadarnhawyd bod y gwaith amddiffyn rhag mellt ac ymchwydd cerrynt wedi'i gwblhau, a bod ardystiad i BS EN 62305 L2 wedi'i dderbyn.

Bydd mesuryddion talu am barcio ceir ar gyfer gwefrwyr ceir trydan yn cael eu gosod ar 3 Ebrill, a bydd y gwefrwyr yn mynd yn fyw tua diwedd mis Ebrill.

Mae'r Ystafell Bost wedi'i throsglwyddo'n ffurfiol, ac mae staff yr Adran Ystadau bellach yn defnyddio'r llawr cyntaf.

Mi fydd pensaer yn cael ei gomisiynu i wneud arolwg dwfn o gyflwr yr adeilad, a bydd yr adroddiad yma'n cael ei gyflwyno i'r Panel Adeiladau yn y lle cyntaf.

Ni chafwyd unrhyw gwestiynau na sylwadau gan yr Ymddiriedolwyr.

5.4 Cofnodion Drafft Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd 14.03.23

Yn absenoldeb y Cadeirydd, Ashok Ahir, cyflwynodd David Hay y cofnodion.

Rhoddodd Owain Roberts adborth ynglŷn â pham fod nifer yr ymweliadau digidol wedi lleihau, a sicrhaodd yr Ymddiriedolion fod y mater yn cael ei ymchwilio'n weithredol;

1. mae cymhariaeth 'tebyg at debyg' ar y gweill â'r un cyfnod yn ystod Covid pan gafwyd cynnydd sylweddol
2. mae bylchau yn yr ystadegau oherwydd y trosglwyddo i'r wefan newydd yn hydref 2022
3. optimeiddio peiriannau chwilio (a newid mewn algorithmau)
4. mae lleihad ym maint cynnwys newydd ar-lein o bosib wedi cyfrannu i'r lleihad mewn traffig. Mae'r lleihad yma oherwydd y ffocws sydd wedi ei roi ar yr Archif Ddarlledu Genedlaethol dros y blynyddoedd diwethaf.

Roedd Adolygiad Effeithiolrwydd y Bwrdd wedi cwestiynu'r DPAau gafodd eu pennu gan y Llyfrgell, felly cytunwyd i ailymweld â'r rhain yn ystod yr haf.

Bydd y Cadeirydd yn drafftio papur ar gyfer cyfarfod y Bwrdd ym mis Mehefin ar sut i fynd i'r afael â'r canfyddiadau/argymhellion yn yr Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd.

Adran 6: Unrhyw Fater Arall

6.1 Defnydd o Sêl y Llyfrgell

Defnyddiwyd sêl y Llyfrgell ar brydles ar gyfer gofod Archif Darlledu Cymru yn Llyfrgell Llanrwst.

6.2 Panel Enwebiadau a Thaliadau Cydnabyddiaeth

Cafwyd trafodaeth ar y mater a ddylai'r Bwrdd sefydlu Panel Enwebiadau i gynghori ar gynllunio olyniaeth a thâl, a hefyd i gynghori ar benodiadau Ymddiriedolwyr.

Gan fod system ddeuol yn bod ar gyfer penodi Ymddiriedolwyr, gyda Llywodraeth Cymru yn gyfrifol am benodi 8, a'r Llyfrgell 7, cytunodd y Prif Weithredwr i ddrafftio papur yn nodi'r broses benodi er eglurder a thryloywder. Gofynnodd yr Ymddiriedolwyr hefyd sut y caiff bylchau sgiliau eu nodi pan fydd Ymddiriedolwyr yn gadael eu rolau, a dywedodd y Clerc wrth y Bwrdd fod archwiliad sgiliau wedi'i gynnal er mwyn nodi unrhyw fylchau canfyddedig. Roedd archwiliad sgiliau ar y gweill ar hyn o bryd a byddai'n cael ei ddosbarthu i'r Ymddiriedolion yn fuan er mwyn hwyluso'r broses benodi sydd i ddod - byddai hwn hefyd yn cael ei rannu â swyddogion Llywodraeth Cymru, gan mai penodiadau Llywodraeth Cymru yw'r tair swydd wag sydd ar ddod.

Wrth symud ymlaen, cytunwyd y dylai nodi bylchau sgiliau a disgrifiad rôl yr Ymddiriedolwyr fod yn rhan o waith y Pwyllgor Llywodraethiant a Pherfformiad.

PWYNTIAU GWEITHREDU YN CODI O'R CYFARFOD

Eitem ar yr Agenda	Gweithredu	Cyfrifoldeb	Dyddiad gweithredu/disgwyliedig
Cyflwyniad: Cynllun Pensiwn	Drafftio amserlen ar gyfer y broses ymgynghori arfaethedig ar gau'r cynllun pensiwn presennol	Trysorydd	Cyfarfod y Bwrdd 02.06.23
Strategaeth Addysg	Drafftio DPA a'i drafod yn y Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd	Owen Llewelyn	Cyfarfod 27/28.07.23
CATC 2023/24 – 2025/26	Cyllidebu ar sail sero ac arbedion cost i'w trafod	Tîm Gweithredol / Bwrdd	Cyfarfod 27.07.23
Gwariant cyfalaf	Dosbarthu'r adroddiad diweddaraf i'r Ymddiriedolwyr	Clerc y Bwrdd	✓
Adolygiad o Effeithiolrwydd y Bwrdd	Trafodaeth a hwyluswyd i drafod adroddiad a chytuno ar gynllun datblygu/ gweithredu	Bwrdd yr Ymddiriedolwyr	Gweithdy i'w chynnal 27.07.23
Cofrestr Risg Corfforaethol	Tîm Gweithredol i ddarparu crynodeb/adroddiad dehongli ar		

	unrhyw newidiadau i risgiau unigol Cynnwys “atgyweiriadau brys i adeilad er mwyn cyfyngu ar y risg barhaus i’r casgliadau” ar y gofrestr risg gorfforaethol	Tîm Gweithredol	Cofrestr Risg wedi ei diwygio’n gynhwysfawr erbyn cyfarfod ARaS 25.04.23
Cofnodion Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd	Ailedrych ar y dangosyddion perfformiad allweddol	Bwrdd yr Ymddiriedolwyr	Gweithdy i’w gynnal 27.07.23
Panel Enwebiadau a Thaliadau Cydnabyddiaeth	Drafftio papur yn nodi'r broses benodi Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Perfformiad ac Ansawdd i gynnwys cyfeiriadau at adolygu bylchau sgiliau a disgrifiadau rôl Ymddiriedolwyr.	Prif Swyddog Gweithredol a’r Llyfrgellydd/Clerc Clerc y Bwrdd	✓ ✓